Prifysgol Abertawe - Cynllun Gweithredu Adolygiad Gwella Ansawdd 2026

Yn ôl gofynion Medr, y corff rheoleiddio ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru, mae angen i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru gynnal adolygiad sicrhau ansawdd allanol bob pum mlynedd. Y dull ar gyfer yr adolygiad ansawdd allanol yw'r Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA), a chaiff ei gynnal gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar ran Medr.

Mae'r dull Adolygiad GA yn asesu darparwyr addysg uwch yn erbyn y Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop a gofynion gwaelodlin Medr, fel y manylir arnynt yn y Fframwaith Asesu Ansawdd i Gymru.

Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol ym mis Mai 2026. Cadarnhaodd y tîm adolygu fod:

• Prifysgol Abertawe yn bodloni gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol.

• Prifysgol Abertawe yn bodloni gofynion rheoleiddio gwaelodlin perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd i Gymru.

Mae'r dyfarniadau hyn yn cadarnhau bod Prifysgol Abertawe'n bodloni gofynion gwaelodlin a bod arferion effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ansawdd academaidd a safonau academaidd.

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad y tîm adolygu, ac mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad a'r meysydd i'w datblygu'n barhaus, ac mae'n esbonio sut bydd y Brifysgol yn manteisio ar y ganmoliaeth.

Canmoliaeth	Datganiad
Drwy roi prosiect Trawsnewid y Cwricwlwm ar waith yn systematig ym mhob rhan o'r sefydliad, sefydlodd y Brifysgol fframwaith cydlynol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer ailgynllunio pob rhaglen a addysgir, â'r nod o wella profiad dysgu cyffredinol y myfyrwyr.	Mae'r Brifysgol yn croesawu'r ganmoliaeth hon a bydd yn adeiladu ar lwyddiant Trawsnewid y Cwricwlwm drwy ymgorffori Fframwaith y Cwricwlwm yn ei phrosesau Gwelliant Parhaus. Drwy fonitro parhaus, Cynllunio i Wella Rhaglenni, datblygiad staff a lledaenu ymarfer effeithiol, bydd y Brifysgol yn cefnogi timau rhaglenni i sicrhau

	cydymffurfiaeth ag egwyddorion y Fframwaith a sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws yr holl raglenni a addysgir. Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i gynnal manteision Trawsnewid y Cwricwlwm, hyrwyddo arloesi ac ymatebolrwydd, a sicrhau gwelliant parhaus y profiad dysgu i fyfyrwyr.
Y ffordd mae gwasanaethau proffesiynol, cydweithwyr academaidd a myfyrwyr y Brifysgol wedi gweithio mewn partneriaeth i wella profiad y myfyrwyr.	Mae'r Brifysgol yn falch o'r diwylliant cryf o bartneriaeth sy'n bodoli rhwng staff y gwasanaethau proffesiynol, cydweithwyr academaidd a myfyrwyr, ac mae'n cydnabod yr effaith sylweddol y mae'r ymagwedd hon ar sail partneriaeth wedi'i chael ar wella profiad y myfyrwyr. Drwy ymrwymiad a rennir at welliant parhaus, bydd timau gwasanaethau proffesiynol a chydweithwyr academaidd yn gweithio'n gydweithredol gyda myfyrwyr i nodi blaenoriaethau, cyd-greu atebion ac ymateb yn effeithiol i anghenion sy'n dod i'r amlwg er mwyn parhau i wella profiad y myfyrwyr.
Mentrau cyflogadwyedd y Brifysgol sy'n cyfrannu at baratoi'r myfyrwyr yn well am yrfaoedd.	Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i baratoi ein myfyrwyr ar gyfer llwyddiant yn eu gyrfaoedd a rolau ehangach yn y gymdeithas. Rydym yn ceisio datblygu unigolion amryddawn, sy'n gallu ymdopi â chymhlethdodau'r byd modern, cyfrannu'n ystyrlon at eu cymunedau a ffynnu mewn amgylcheddau proffesiynol amrywiol. O ganlyniad, rydym yn croesawu'r ganmoliaeth hon a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n rhwydwaith mawr o gyflogwyr i sicrhau bod gan ein myfyrwyr y sgiliau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer gyrfaoedd llwyddiannus.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb	Cam Gweithredu	Dyddiad Cwblhau
Argymhellodd yr adroddiad fod y Brifysgol yn adolygu ei harweiniad a'i hymarfer mewn perthynas ag amgylchiadau esgusodol er mwyn eu gwneud yn llai amwys a sicrhau gwell eglurder a chysondeb i'r holl fyfyrwyr.	Y Dirprwy Is-ganghellor, Addysg	(i) Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i adolygu ac alinio'r Polisi, yr arweiniad, y cwestiynau cyffredin a chyfathrebiadau â myfyrwyr ynghylch Amgylchiadau Esgusodol i sicrhau eglurder a chysondeb, er mwyn nodi meysydd o amwysedd a chyd-ddylunio arweiniad a chyfathrebiadau gwell. Egluro gofynion tystiolaethol, gan gynnwys defnyddio hunan-ddatgan lle bo'n briodol, a darparu enghreifftiau clir o dystiolaeth dderbyniol. (ii) Meincnodi ymarfer y sector i archwilio ymagweddau amgen i wella hygyrchedd a chysondeb cymorth. (iii) Rhoi trefniadau diwygiedig ar waith a chynllunio i'w gwerthuso, gyda model gwell ar waith ar gyfer 2027/28 ac adolygiad parhaus o effeithiolrwydd a phrofiad y myfyrwyr.	Medi 2026 Mai 2027 Medi 2027

Meysydd i'w Datblygu'n Barhaus	Cyfrifoldeb	Datganiad	Dyddiad Cwblhau
Y camau sy'n cael eu cymryd i gryfhau cysondeb arweiniad ac ymarfer ynghylch defnydd caniataol o AI mewn gwaith i'w asesu ar draws y Brifysgol.	Y Dirprwy Is-ganghellor, Addysg	(i) Cynnwys staff er mwyn adnabod heriau o ran asesu, marcio ac uniondeb academaidd sy'n deillio o AI cynhyrchiol, a datblygu arweiniad penodol ac adnoddau datblygiad staff. Adolygu a mireinio canllawiau asesu i gefnogi ymagweddau cyson at y defnydd a ganiateir o AI cynhyrchiol mewn gwaith i'w asesu ar draws y Brifysgol. Cynnwys myfyrwyr a'u cefnogi i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau i ddefnyddio AI cynhyrchiol yn briodol ac yn foesegol mewn asesiadau. (ii) Datblygu a pheilota cyfres o adnoddau â ffocws i staff a myfyrwyr yn ystod Semester 2 Blwyddyn Academaidd 2026/27, wedi'u llywio gan adborth ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg. Rhoi fframwaith a chyfres o adnoddau ledled y Brifysgol ar waith erbyn mis Medi 2027, gyda gwaith adolygu a gwerthuso parhaus i ymateb i ddatblygiadau technolegol ac addysgegol.	Mai 2027 Medi 2027